**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : MA-L-VG-0696-18

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Tachwedd 2018

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth am y dystiolaeth a gyflwynais i'r Pwyllgor ar Fil Awtistiaeth (Cymru) ar 25 Hydref. Yn unol â'ch cais, mae'n bleser gennyf ddarparu gwybodaeth ichi am yr amseroedd aros presennol a drafft cyfrinachol o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer y Cod Ymarfer ar Gyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth. Mae'r cod hefyd wedi cael ei fapio yn erbyn y dyletswyddau yn y Bil Awtistiaeth (Cymru). Caiff y ddogfen ymgynghori ei chwblhau a'i chyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd. Rwyf hefyd yn nodi isod fy ymateb i'r cwestiynau eraill a godwyd gan y pwyllgor.

*Amseroedd Aros Diagnostig Presennol*

Caiff ystadegau perfformiad mewn perthynas â'r targed niwroddatblygiadol eu cyhoeddi ar Stats Cymru o fis Ebrill 2019. Ar ôl cwblhau proses Bwrdd Safonau Gwybodeg Cymru, ym mis Hydref 2017 dechreuodd pob bwrdd iechyd adrodd ar nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt yn ystod y mis hwnnw mewn perthynas â'r gwasanaeth niwroddatblygiadol. Mae'r data newydd yn nodi nifer y bobl a fu'n aros llai na 26 wythnos, 26-35 wythnos, 36-51 wythnos, a thros 52 wythnos. Mae'r data hwn ar gam 'treialu' o hyd ac ni fydd ar gael yn gyhoeddus tan y gwanwyn nesaf. Mae angen cyfnod treialu er mwyn i fyrddau iechyd allu sicrhau bod eu gwasanaethau yn gweithio yn y ffyrdd a nodwyd yn yr Hysbysiad Newid Safonau Data (DSCN). Mae hefyd yn rhoi cyfle i brofi cadernid y data.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau tryloywder, gallaf adrodd yn gyfrinachol i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon bod data'r cyfnod treialu yn awgrymu mai Betsi Cadwaladr a Hywel Dda sydd isaf o ran cyflawni yn erbyn y targed. Fodd bynnag, dyma'r ddau fwrdd iechyd sydd hefyd yn cael y niferoedd mwyaf o atgyfeiriadau. Caerdydd a'r Fro a Phowys sydd ar y brig o ran cyflawni yn erbyn y targed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Cod Ymarfer ar gyfer Cyflwr Penodol*

Caiff y Cod Ymarfer ar Gyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth ei wneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Diben y Cod yw atgyfnerthu'r dyletswyddau presennol i ddarparu gwasanaethau a chymorth. Bydd y Cod yn helpu i sicrhau bod gan bobl ag awtistiaeth a'u gofalwyr fynediad i asesiad sy'n seiliedig ar anghenion a gwasanaethau ar sail y gellid ei chymharu â dinasyddion sydd ag anghenion cymorth eraill o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y Cod yn codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a'r addasiadau rhesymol y dylai gwasanaethau cyhoeddus a chyflogwyr eu gwneud i alluogi pobl ag awtistiaeth i wireddu eu potensial. Bydd hyn yn helpu i greu sefyllfa lle y caiff pawb eu trin yn yr un modd yn unol â chais y sawl sy'n cefnogi'r Bil. Fodd bynnag, ni fydd yn eithrio unigolion sydd ag anghenion tebyg ond sydd heb gael diagnosis o awtistiaeth rhag cael mynediad i wasanaethau penodol a fydd yn ganlyniad negyddol yn sgil y Bil os caiff ei drosglwyddo i ddeddfwriaeth.

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth a dderbyniodd y Pwyllgor gan gyfranogwyr eraill, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Cydffederasiwn y GIG a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Therapyddion Galwedigaethol, Therapyddion Iaith a Lleferydd, Pediatregwyr ac Iechyd a Seiciatryddion Plant, os nad yw deddfwriaeth gref bresennol sy'n seiliedig ar anghenion yn gweithio i rai unigolion, yna ni fydd cyflwyno rhagor o ddeddfwriaeth yn datrys y broblem. Y dull cywir yw cymryd camau i gryfhau gwasanaethau awtistiaeth gan gynnwys sicrhau bod gwasanaethau statudol yn deall eu cyfrifoldebau cyfredol yn llawn er mwyn cefnogi pobl ag awtistiaeth a'u gofalwyr.

Rwyf hefyd yn ailadrodd fy mhryder sylweddol nad yw'r Bil yn cyfateb â deddfwriaeth fodern sy'n seiliedig ar anghenion a welwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac y bydd y Bil yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth o'r fath mewn ffordd andwyol. Mae'r posibilrwydd hefyd y bydd gan bobl ag awtistiaeth hawliau sy'n gwrthdaro â'i gilydd ar draws deddfwriaeth amrywiol a fydd yn achosi dryswch ymhlith staff rheng flaen.

*Gwasanaethau a chymorth yn seiliedig ar anghenion*

Mae'r Pwyllgor wedi codi'r mater pwysig o sicrhau bod cymorth cyfannol ar gael i bobl ag awtistiaeth. Mae'n bwysig nodi yn gyntaf nad yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyfeirio at hyn o gwbl ac eithrio nodi bod amrywiaeth o gyrff yn 'ystyried' y mater. Mae hyn yn awgrymu bod y maes hwn yn un anodd iawn i ddeddfu yn dod, yn arbennig oherwydd y bydd llawer o wasanaethau y tu hwnt i gwmpas rheoleiddio Llywodraeth Cymru. Mae ein deddfwriaeth bresennol sy'n seiliedig ar anghenion yn ystyried yr unigolyn yn ei gyfanrwydd, yn gweithio gyda nhw i bennu eu canlyniadau o ran llesiant ac yn sefydlu llwybr er mwyn iddynt gael mynediad i amrywiaeth o wasanaethau a'u cefnogi i gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae'n bosibl y bydd llawer o'r gwasanaethau y dymunant gael mynediad iddynt yn y meysydd a grybwyllwyd gennych, yn arbennig cyflogaeth a chynhwysiant, y tu allan i wasanaethau statudol, er enghraifft cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol.

Yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, ceisiais hefyd ddangos fod nifer o fentrau eisoes o fewn fframwaith y ddeddfwriaeth bresennol sy'n cyfrannu'n sylweddol at hybu gwasanaethau ym maes addysg, cyflogaeth, tai a chynhwysiant cymdeithasol ar gyfer pobl ag awtistiaeth.

Drwy'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD), mae'r Tîm Datblygu ASD Cenedlaethol yn darparu anghenion a chymorth angenrheidiol i bobl ag awtistiaeth er mwyn eu cynorthwyo gyda'u bywyd bob dydd. Atodaf gynllun gwaith blynyddol a thaflen adnoddau y Tîm i ddangos amrywiaeth y gwaith sy'n mynd rhagddo. Hoffwn dynnu eich sylw, yn benodol, at y gwaith y maent yn ei wneud i ddatblygu canllawiau ar dai i bobl ag awtistiaeth.

Rydych hefyd wedi clywed tystiolaeth arall am y cymorth uniongyrchol a ddarperir i unigolion drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Deallaf y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn darparu tystiolaeth bellach gan gynnwys astudiaethau achos i ddangos sut mae'r gwasanaeth yn darparu arbenigedd. Mae ystod lawn yr adnoddau sydd ar gael yn cynnwys rhaglenni datblygu ar gyfer ysgolion a lleoliadau eraill, cyngor ar gyfer lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, canllawiau ôl-ddiagnostig i rieni, plant ac oedolion. Gallwch gael mynediad i'r rhain ar y wefan www.asdinfowales.co.uk,

Ym maes addysg, bydd ein proses o ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n cael ei hategu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn darparu cymorth sylweddol i'r rhai ag anghenion cymorth addysgol ychwanegol. Mae'n cyflwyno system newydd sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai ag awtistiaeth, yn gallu cael mynediad i gymorth a'i fod wedi'i gynllunio'n gywir ac yn cael ei amddiffyn. Bydd gan blant a phobl ifanc gynllun statudol sydd â hawl gyfartal o ran apelio. Yn ogystal, bydd Deddf Iechyd Meddwl 1997 a 2008 yn cefnogi'r sawl sydd ag anghenion iechyd meddwl ychwanegol.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cynnwys pennod sy'n trafod y broses bontio rhwng ysgolion, sy'n gallu bod yn gyfnod pryderus i'r sawl sydd ar y sbectrwm awtistig. Bydd cod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn yr adran sy'n trafod gweithio aml-asiantaeth, yn cyfeirio'n benodol at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r cymorth arall sydd ar gael. Bydd y cod hwn yn rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i ddefnyddio ffurflen safonol briodol ar gyfer Cynllun Datblygu Unigol.

Mae'r Tîm Datblygu ASD Cenedlaethol hefyd yn cefnogi'r rhai sydd ar y sbectrwm awtistig drwy gydol eu cynnydd drwy'r system addysg drwy ddatblygu adnoddau hyfforddi o fewn y rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth. Ym maes Ysgolion Uwchradd, mae 1562 o athrawon wedi cwblhau'r cynllun athrawon Dysgu gydag Awtistiaeth ac mae 6951 o ddisgyblion wedi cwblhau'r wers Sgilti a llofnodi'r adduned, a hynny ers 4 Medi 2018. Yn ogystal, mae 7 o Ysgolion Uwchradd ledled Cymru wedi derbyn y wobr Ysgol Dysgu gydag Awtistiaeth, ac ar 28ain Medi, cyflwynwyd y strategaeth Dysgu gydag Awtistiaeth i'r Grŵp ADY CCAC/ Cynhwysiant a Gwella Ysgolion.

Ym maes Addysg Bellach, mae gwaith eisoes wedi dechrau gyda Colegau Cymru. Mae'r Tîm yn hyrwyddo dealltwriaeth o awtistiaeth i'r corff myfyrwyr cyffredinol drwy ddeunyddiau addysgol, darparu hyfforddiant i staff gwaith uniongyrchol, a chreu adnoddau i fyfyrwyr ag awtistiaeth er mwyn cefnogi eu llwybr i addysg bellach. Bydd Dysgu Seiliedig ar Waith hefyd yn cael ei gefnogi gan y rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth, gyda fforymau, taflenni cyngor a llawlyfrau yn cael eu paratoi.

Ar gyfer cyflogaeth, mae'r strategaeth ASD yn amlinellu ein rhaglen 'Gweithio gydag Awtistiaeth', sydd wedi arwain at ap 'Gweithio gydag Awtistiaeth', rhaglen i ddatblygu CV, datblygu sgiliau personol, offeryn chwilio am waith, geiriadur sgiliau meistr a rhaglen e-ddysgu. At hynny, mae'r rhaglen yn amlygu'r Prosiect 'Ar y Blaen' a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr, sydd â'r nod o wella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.

Mae'r cyfrifoldeb dros fudd-daliadau a chymorth cyflogaeth statudol yn un sydd heb ei ddatganoli yn bennaf, ond rydym yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i annog mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith staff cymorth. Gall ein Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig hefyd ddarparu cyngor a chyfarwyddyd unigol mewn perthynas ag anghenion cyflogaeth.

Mewn perthynas â thai, rydym yn cymryd camau drwy'r Strategaeth ASD, gan weithio ar draws llywodraeth a chyda phartneriaid i ddatblygu canllawiau ar gyfer darparwyr tai i ddarparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer pobl ag awtistiaeth. Mae'r Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol hefyd wedi cynhyrchu'r 'cynllun e-ddysgu Tai' ar gyfer staff tai, i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r anawsterau a'r anghenion y gallai pobl ag awtistiaeth eu hwynebu mewn perthynas â thai.

Mewn perthynas â chynhwysiant cymdeithasol, rydym yn deall bod llawer o bobl ag awtistiaeth yn ei chael hi'n anodd ffurfio perthnasoedd cymdeithasol, ond maent eisiau ymgysylltu â'r gymuned. Drwy'r Strategaeth ASD, mae'r Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol wedi datblygu gwasanaethau a chymorth. Mae'r rhaglen Byw gydag Awtistiaeth yn darparu cymorth, ac mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi'i ddylunio'n benodol i helpu unigolion sy'n cael problemau gyda bywyd bob dydd. Gellid hefyd annog cynnwys y rhai sydd ar y sbectrwm awtistig yn gymdeithasol drwy godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Yng Nghymru, mae'r ymgyrch 'Weli Di Fi?' yn dathlu'r gwahaniaethau rhwng y rhai sydd ag awtistiaeth, ac mae'n rhoi dewis i bobl ag awtistiaeth ddangos i eraill eu bod yn awtistig drwy wisgo band neu logo ffôn clyfar. Mae hefyd yn addysgu pobl sy'n gweithio o fewn gwasanaethau hamdden a manwerthu ynghylch ffyrdd o fod yn fwy ymatebol i gwsmeriaid ag awtistiaeth.

Bydd y Cod yn egluro sut y bydd cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl ar y sbectrwm awtistig yn gofyn am strategaethau gwahanol gan ddarparwyr gwasanaethau. Yn benodol, bydd yn cyfeirio at unigolion sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a hefyd at sut mae rhywedd a dysfforia rhywedd yn effeithio ar gynhwysiant cymdeithasol mewn perthynas â phobl ag awtistiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i wella gwasanaethau hunaniaeth rhywedd yng Nghymru ac wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru i ddarparu cyngor ar y mater hwn. Mae Tîm Rhywedd Cymru yn cael ei greu a fydd yn gweithredu o Ysbyty Athrofaol Cymru.

Yn ehangach na hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall unigrwydd ac ynysigrwydd gael effaith andwyol ar lesiant unigolion. Rydym yn datblygu strategaeth unigrwydd ac ynysigrwydd ac wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori gyhoeddus ar 22 Hydref 2018.

*Cyniferydd Deallusrwydd (IQ) a chymhwysedd ar gyfer gwasanaethau*

Nid yw'r meini prawf cymhwysedd cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyfeirio at IQ. Felly ni ddylai hyn fod yn ffactor yn y broses asesu.

Os oes tystiolaeth gadarn nad yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gweithio, yna mae'n rhaid ymdrin â hyn mewn ffordd gyfannol ar gyfer y dinasyddion i gyd. Nodir hyn hefyd ym Mhennod 3 adran 17 y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: 'The Welsh Assembly Government has made clear to authorities that access to health and social care services for adults must not be based on IQ related criterion.'

Bydd y Cod yn cyfeirio'n benodol at gefnogi'r holl bobl ag awtistiaeth i gael mynediad i asesiadau gofal cymdeithasol. Er na ddylai IQ gyfrannu at yr asesiad, efallai y bydd rhai pobl ar y sbectrwm awtistig y mae eu hanghenion yn golygu na fyddai pecyn gofal cymdeithasol yn cael ei ystyried yn briodol ar ôl iddynt gael eu hasesu. Bydd y Cod yn darparu canllawiau ar atgyfeirio i wasanaethau priodol ar gyfer pobl ag awtistiaeth fel y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a ddyluniwyd yn benodol gyda'r grŵp hwn o bobl ag awtistiaeth mewn golwg. Mae yno i ddarparu cymorth ar gyfer y rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ond sydd ag anghenion cymorth o hyd, ac efallai eu bod wedi colli'r cyfle i gael cymorth yn y gorffennol.

*Dyletswydd Cyrff Iechyd i weithredu o dan y Cod*

Gallaf gadarnhau y bydd y Cod yn gofyn i gyrff iechyd weithredu ar yr un sail ag awdurdodau lleol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r gofynion yn y Cod. Mae Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 eisoes yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno cod mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Caiff y cod ei gyflwyno hefyd o dan adran Deddf 2014 a Deddf GIG 2006. Mae'n rhaid i'r cod drafft hwn gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad. Yn unol ag adran 145(3) mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â'r gofynion perthnasol o fewn y Cod. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd ac yn gosod gofynion arnynt i gydymffurfio â'r Cod.

Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor, dim ond drwy Adolygiad Barnwrol y gellid gorfodi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth awtistiaeth, ac mae dulliau gweithredu ar gyfer gorfodi eisoes wedi'u hymgorffori o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Adran 150 y Cod yn nodi y gall Gweinidogion Cymru ymyrryd mewn achos o fethiant awdurdodau lleol i arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol, i weithredu'n afresymol neu fethu â chyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol i safon ddigonol. Yn yr un modd, o dan Ddeddf GIG (Cymru), mae darpariaeth i wneud gorchymyn ymyrryd a chymryd camau pellach lle na fydd bwrdd iechyd lleol yn cyflawni ei swyddogaethau yn ddigonol neu lle y bydd methiant sylweddol yn y ffordd y mae'r corff yn cael ei redeg.

*Fformatau hygyrch*

Mae'r holl wybodaeth am ein gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog. At hynny, yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ymateb i geisiadau unigolion am ddulliau amgen o gyfathrebu ei gwasanaethau. Yn y ffordd hon, rydym yn ymroddedig i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i wybodaeth sy'n berthnasol iddynt a'u bod yn gallu deall y wybodaeth honno. Mae darparu dogfennau 'darllenadwy' yn enghraifft o hyn. Os bydd enghreifftiau penodol lle mae teuluoedd wedi profi anawsterau yna byddwn yn awyddus i gael gwybodaeth bellach er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa.

*Ymgysylltu â rhanddeiliaid*

Rwyf hefyd wedi cwrdd â grwpiau awtistiaeth yn ddiweddar yn Aberafan ac Ynys Môn i drafod blaenoriaethau polisi gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y cod awtistiaeth. Gwrandawais ar y problemau gwirioneddol a brofwyd gan deuluoedd a dysgais sut roeddent yn teimlo y dylid gwella gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion unigolion yn well. Y prif themâu a ddaeth i'r amlwg oedd ynghylch anawsterau wrth gael mynediad i gymorth mewn ysgolion a gwasanaethau ychwanegol fel gofal seibiant. Clywais fod rhai teuluoedd o'r farn y gallai deddfwriaeth osod dyletswyddau uniongyrchol ar ysgolion i ddarparu cymorth, a gofynnwyd i mi pa atebion a oedd ar gael ar hyn o bryd er mwyn i benderfyniadau mewn ysgolion gael eu herio.

Roedd yn amlwg nad oedd teuluoedd yn teimlo bod y system bresennol yn gweithio iddynt hwy, ac roeddent yn gobeithio y byddai deddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r cyflwr yn eu helpu i gael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt ar fyrder. Nid oes dim byd yn y Bil a fyddai'n arwain at ymdrin â'r pryderon hyn ac rwy'n pryderu o hyd bod cynnydd y Bil yn codi disgwyliadau afrealistig.

Y llwybr mwyaf effeithiol i wella gwasanaethau fyddai gwneud gwelliannau'n gyflymach i sicrhau bod y system bresennol yn seiliedig ar anghenion yn gweithio'n briodol. Caiff y gwelliant hwn ei gyflawni drwy'r Cod Ymarfer ar gyfer awtistiaeth a'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cael eu cyflwyno o 2020. Mae fy nhystiolaeth, a gefnogir gan lawer o gyrff proffesiynol, wedi dangos bod angen amser arnom er mwyn i ddeddfwriaeth gyfredol sy'n seiliedig ar anghenion gael ei chyflwyno a'i hymgorffori ac na ddylid cyflwyno haen ychwanegol o ddeddfwriaeth ddryslyd a chymysg.

Byddwch hefyd yn ymwybodol fy mod wedi rhoi tystiolaeth yn ddiweddar mewn Pwyllgor Cyllid. Mae gennyf bryderon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn diystyru'r costau o'i gyflwyno ac nad oes unrhyw sôn am yr anfanteision. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid cyn bo hir.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services